Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Mawrth 2018

www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddMCD@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddMCD**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Mawrth 2018

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2016 i cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

Cadeirydd y Pwyllgor:

Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:

Mandy Jones AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru

Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad 5

Cylch gwaith y Pwyllgor 5

Cyflwyno'r Bil 5

Y cefndir 6

2. Cymhwysedd deddfwriaethol 9

Cyffredinol 9

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 9

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol 9

Hawliau dynol 10

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 10

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol 11

Ein barn 13

3. Sylwadau cyffredinol 14

Yr angen am ddeddfwriaeth 14

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 14

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol 15

Cydgrynhoi 15

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 15

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol 16

Ein barn 17

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth 17

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 17

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol 17

Ein barn 18

4. Sylwadau ar bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth 19

Y cefndir 19

Pwerau Harri VIII 19

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 19
Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol 20
Ein barn 22
Adran 76 – Dehongli 23
Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 23
Ein barn 24
Adran 78 – Darpariaethau canlyniadol, trosiannol etc 24
Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet 24
Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol 25
Ein barn 27

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21[1] (ac eithrio Rheol Sefydlog 21.8[2]), ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

2. Yn ein gwaith o graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Cynulliad Cenedlaethol, ein dull yw ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd y ddeddfwriaeth.

Cyflwyno'r Bil

3. Ar 2 Hydref 2017, cafodd y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)[3] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[4] cysylltiedig eu cyflwyno fel Bil Pwyllgor y Cynulliad gan Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

4. Cafodd y Bil ei gyfeirio gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac, ar 19 Medi 2017, gosodwyd

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru***, Hydref 2017

[2] Cyfrifoldeb y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** yw'r swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21.8

[3] Ar gael ar **wefan** y Cynulliad Cenedlaethol.

[4] ***Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn Ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol***, Hydref 2017

amser terfyn, sef 9 Mawrth 2018 ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.[5]

5. Trafodwyd y Bil yn ein cyfarfod ar 15 Ionawr 2018. Cawsom dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Ysgrifennydd y Cabinet), dau swyddog o Lywodraeth Cymru, a Simon Thomas AC, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil (Aelod sy'n gyfrifol) ynghyd â dau swyddog o Gomisiwn y Cynulliad.

Y cefndir

6. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud y bwriedir i'r Bil:

> "...ddisodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ('Deddf 2005').
>
> Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch swydd yr Ombwdsmon a swyddogaethau'r rôl o ran ymchwilio. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau awdurdodau rhestredig ar gyfer ymdrin â chwynion ac yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion."[6]

7. Cafodd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ei sefydlu gan *Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Deddf 2005). Yn Neddf 2005, cafodd swyddogaethau a phwerau blaenorol yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru eu dwyn at ei gilydd.*[7]

8. Gwnaeth Deddf 2005 ddarpariaethau hefyd yn ymwneud â swyddogaethau'r Ombwdsmon. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, bwerau ymchwilio'r Ombwdsmon, ei bwerau i geisio iawndal i bobl sydd wedi cael cam a'r pwerau i roi canllawiau i gyrff cyhoeddus.

---

[5] Y Pwyllgor Busnes, ***Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)***, Medi 2017

[6] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1.1-1.2

[7] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2

9. Ym mis Tachwedd 2014, cafodd pwerau'r Ombwdsmon eu hymestyn i gynnwys cwynion am wasanaethau cymdeithasol yn y sector preifat.[8] Mae'r darpariaethau ar gyfer y pwerau estynedig wedi'u nodi yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

10. Cafodd swyddogaeth yr Ombwdsmon mewn perthynas â chwynion Cod Ymddygiad ei diwygio hefyd o fis Ebrill 2016 o ganlyniad i *Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016* a *Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016*.[9]

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, er bod rôl gyfredol yr Ombwdsmon yn gweithio'n effeithiol, ac er y bernid yn gyffredinol fod Deddf 2005 yn batrwm o ddeddfwriaeth ar gyfer Ombwdsmyn, y cafwyd galwadau ers 2013 i ymestyn ei bwerau.[10]

12. Bu Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a Phwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn ystyried ehangu rôl yr Ombwdsmon. Yn 2013, ysgrifennodd Peter Tyndall, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn nodi'r newidiadau yr oedd yn credu yr oedd angen eu gwneud i Ddeddf 2005, a chyfeiriodd at y rhain mewn sesiwn dystiolaeth ym mis Tachwedd 2013 wrth drafod ei adroddiad blynyddol.[11]

13. Dywedodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, fod yr Ombwdsmon wedi codi ambell bwynt gwerthfawr. Fodd bynnag, nododd hefyd fod angen ystyriaeth a thrafodaeth fanwl, a oedd yn gofyn am benodiad yr Ombwdsmon dilynol. Penodwyd Nick Bennett yn 2014 i fod yr Ombwdsmon newydd, ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, ym mis Tachwedd 2014, fod y Pwyllgor Cyllid wedi clywed gan yr Ombwdsmon ei fod yn credu bod "awydd i ddiweddaru Deddf 2005".[12]

14. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, cafwyd trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn a dywedodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, y byddai'n fwy priodol, o ystyried bod yr

[8] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5

[9] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.6

[10] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.9

[11] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.11

[12] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.12-3.13

Ombwdsmon yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, i'r Cynulliad arwain unrhyw newid deddfwriaethol.[13]

15. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad, ac y lansiwyd ymgynghoriad ar adolygu pwerau'r Ombwdsmon. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhanddeiliaid, y cyhoedd a Gweinidogion Cymru.[14] Cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ei adroddiad ym mis Mai 2015.[15] Argymhellodd y dylai Bil gael ei gyflwyno yn y Cynulliad "gan fod y dystiolaeth wedi argyhoeddi'r Aelodau y dylid adolygu pwerau'r Ombwdsmon".[16] Yna, lansiodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar Fil drafft[17] tua diwedd y Pedwerydd Cynulliad, a chyflwynwyd adroddiad ym mis Mawrth 2016.[18]

16. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cydgrynhoi Deddf 2005 yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn diwygio a chyflwyno darpariaethau newydd sy'n ehangu pwerau swyddfa'r Ombwdsman i:

- dderbyn cwynion llafar;
- cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun;
- ymchwilio i driniaeth feddygol breifat gan gynnwys gofal nyrsio ("gwasanaethau iechyd preifat") mewn llwybr iechyd cyhoeddus/preifat; ac
- ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.[19]

[13] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.14

[14] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.18

[15] Y Pwyllgor Cyllid, ***Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru***, Mai 2015

[16] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.19

[17] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.20

[18] Y Pwyllgor Cyllid, ***Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft***, Mawrth 2016

[19] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.2

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Cyffredinol

17. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil yn rhinwedd adran 108 a Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn benodol:

- Paragraff 9: Iechyd a gwasanaethau iechyd;
- Paragraff 11: Tai;
- Paragraff 12: Llywodraeth leol;
- Paragraff 14: Gweinyddiaeth gyhoeddus;
- Paragraff 15: Lles cymdeithasol; a
- Paragraff 19: Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd.[20]

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

18. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, gan nad yw hwn yn Fil Llywodraeth, fod Llywodraeth Cymru yn fodlon dibynnu ar y sicrwydd a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Llywydd fod darpariaethau'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd.[21]

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol

19. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym ei fod yn hyderus iawn fod y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.[22]

20. Gwnaethom ofyn hefyd am faterion ynghylch cymhwysedd rhag ofn na chytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a hynny cyn i fodel cadw pwerau *Deddf Cymru 2017* ddod yn gyfraith ar y Prif Ddiwrnod Penodedig.[23] Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

[20] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 2.1-2.4

[21] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [43]

[22] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [111]

[23] **Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfwriaeth, Prif Ddiwrnod Penodedig**

> "Mae'r Bil yn seiliedig ar y Ddeddf blaenorol yn 2005, ond yn fwy seiliedig, wrth gwrs, ar Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2006, ac felly yn ymwneud â'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yn y ffordd yna. Pe na bai'r Bil yma ddim yn mynd heibio'r pwynt rydych chi'n sôn amdano, sef y pwynt cut-off, fel petai, ar gyfer y cymhwysedd newydd, byddai hynny yn codi rhai cwestiynau ynglŷn â chymhwysedd y Bil yn ei ffurf presennol a byddai rhaid adolygu'r Bil yng ngoleuni hynny..."[24]

Hawliau dynol

21. Mae effaith y Bil ar hawliau dynol a chydraddoldeb wedi cael ei hasesu gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r effaith anuniongyrchol a'r effaith uniongyrchol y mae'r Bil yn ei chael ar y ddau faes.[25] Mae'n dod i'r casgliad:

> "Mae'r Bil yn diogelu ac yn cryfhau rôl yr Ombwdsmon o fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n deillio o ymchwiliadau. Gall y rôl honno gael effaith uniongyrchol ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, a thrwy hynny gael effaith gadarnhaol ar ystod eang o broblemau cydraddoldeb a hawliau dynol.
>
> O ran y broses ymchwilio ei hun, mae'r Bil yn cynnig rhagor o hyblygrwydd i'r Ombwdsmon helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, boed hynny oherwydd anabledd, oedran, ofn, digartrefedd neu unrhyw statws arall. Bydd hyn yn cael rhagor o effaith gadarnhaol ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol nad ydynt, yn y gorffennol, wedi cael eu dwyn i sylw'r Ombwdsmon."[26]

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

22. Gofynnom i Ysgrifennydd y Cabinet pa oblygiadau y gallai'r Bil eu cael ar hawliau dynol. Dywedodd wrthym ei fod yn credu bod y Bil yn cefnogi hawliau dynol drwy ddarparu'r gallu i dderbyn cwynion llafar, gan fod hyn yn "cynorthwyo â hawliau dynol y bobl hynny nad ydynt yn hyderus yn cyflwyno pethau yn ysgrifenedig".[27] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod y Bil yn cynnwys pwerau i greu rheoliadau a fyddai'n diogelu data personol.[28]

---

[24] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [111]

[25] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 12.2-12.32

[26] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 12.31-12.32

[27] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [47]

[28] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [47]

23. Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet, os byddai'r Bil yn mynd ymhellach yn y broses ddeddfwriaethol, ei bod yn bosibl y byddai Llywodraeth Cymru am godi pryderon â'r Aelod sy'n gyfrifol ynghylch darpariaethau ôl-weithredol.[29] Meddai:

> "... in creating the new ability to take own-initiative investigations, the Bill allows the ombudsman to look backwards in time, as well as forwards from the point at which the Bill becomes an Act of the Assembly. There is no time limit in the Bill to that retrospective ability. I think you could argue that a non-time-limited ability to go into the past could give rise to some human rights considerations ..."[30]

24. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn credu nad yw'r Ombwdsmon ar hyn o bryd yn ymchwilio i gwynion sy'n fwy nag un flwyddyn oed.[31] Awgrymodd y gallai cyfnod ôl-weithredol o'r math hwn mewn perthynas â'i ymchwiliadau ar ei liwt ei hun alluogi i'r Bil fod yn fwy effeithiol gan roi ystyriaeth i faterion hawliau dynol a all godi yn y cyd-destun hwnnw.[32]

25. Roedd swyddog o Lywodraeth Cymru a ddaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod y Bil yn cynnwys mesurau diogelu sy'n galluogi'r Ombwdsmon i ystyried materion yn ôl-weithredol, gan wneud hynny dim ond pan fo'r Ombwdsmon yn fodlon bod risg yn dal i fod o ran caledi, camweinyddiaeth neu fethiant systematig.[33] Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai fod gan yr Ombwdsmon ddim gallu i ymchwilio'n ôl-weithredol, ond ni ddylai'r Bil ganiatáu "hawl anghyfyngedig i fynd yn ôl mor bell ag y mae'n dymuno mynd".[34]

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol

26. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod y Bil yn effeithio ar hawliau dynol mewn dwy ffordd benodol, sef:

- mewn perthynas â swyddogaethau'r Ombwdsmon yn bod yn "rhan bwysig o sylfeini hawliau dynol yng Nghymru";[35] a

[29] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [48]

[30] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [49]

[31] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [49]; **Llythyr gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 8 Chwefror 2018**

[32] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [49]

[33] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [52]

[34] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [59]

[35] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [114]

- gan ei fod yn ymwneud â hawliau dinasyddion ac yn ymwneud â hawliau unigolion eraill.[36]

27. Nododd yr Aelod sy'n gyfrifol fod yr Ombwdsmon ei hun yn destun deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, a dadleuodd fod y Bil yn gwneud hawliau dynol yn fwy hygyrch ac yn gliriach yng Nghymru.[37]

28. O ran y mater o ôl-weithredu, eglurwyd y sefyllfa bresennol gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Dywedodd na fyddai'r Ombwdsmon, yn gyffredinol, ond yn ymchwilio gan fynd yn ôl un flwyddyn. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod disgresiwn i ymestyn hyn o dan Ddeddf 2005.[38]

29. Mewn perthynas â'r ymchwiliadau arfaethedig ar ei liwt ei hun, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei bod yn glir iawn nad oeddent yn ceisio nac yn bwriadu rhoi rhwydd hynt i ymchwilio'n ôl-weithredol heb gyfyngiadau.[39] Eglurodd fod y meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun wedi'u manylu ar wyneb y Bil, a bod rhaid i'r Ombwdsmon fod yn siŵr bod unrhyw ymchwiliad ar ei liwt ei hun er budd y cyhoedd.[40] Dywedodd fod hyn, mewn termau cyffredinol o ran cyfraith weinyddol, yn darparu mesurau diogelu priodol.[41] Ychwanegodd, yn ogystal â bod rhaid i ymchwiliad ar ei liwt ei hun fod er budd y cyhoedd, y byddai meini prawf ychwanegol i'w bodloni. Byddai'n rhaid i'r mater yr ymchwilir iddo fod:[42]

- yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater;[43] a

- methiant systematig a all achosi person i ddioddef anghyfiawnder neu galedi.[44]

30. Pan ofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol a yw'r Bil bron yn creu pŵer penodol i fod yn ôl-weithredol gan nad ydyw'n bosibl diffinio budd y cyhoedd heb edrych ar hanes y methiant, atebodd:

---

[36] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [114]
[37] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [115]
[38] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [118]
[39] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [119]
[40] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [119]
[41] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [119]
[42] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [119]
[43] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [120]
[44] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [122]

> "... I'm very clear that if you're looking at a systemic failure then, yes, you are looking back at things that have happened maybe beyond the current year's ability that the ombudsman has to look at complaints, but the point I was making is that it has to be an ongoing failure; it can't be simply a past failure that was dealt with by the intervention of a Government previously ... This has to be something that is currently likely to sustain injustice or hardship."[45]

31. Ategodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod geiriad y Bil yn ei gwneud yn glir na all methiant systematig yr ymchwilir iddo fod yn rhywbeth hanesyddol yr ymdriniwyd ag ef yn briodol eisoes gan yr awdurdod perthnasol. Nododd fod achosion o'r fath yn debygol o gael eu dewis gan yr Ombwdsmon drwy waith achos neu achosion o chwythu'r chwiban, lle bo cwyn benodol heb ei gwneud o bosibl, ond lle bo tystiolaeth ddigonol sy'n bodloni'r meini prawf a osodwyd gan y Bil.[46] Wrth drafod yr Ombwdsmon, dywedodd:

> "...he has to demonstrate that that is happening, otherwise he does not have the power to do it."[47]

32. At hynny, mewn gohebiaeth, rhoddodd yr Aelod sy'n gyfrifol rywfaint o eglurhad ynghylch yr elfen ôl-weithredol o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.[48]

Ein barn

33. Rydym yn nodi nad oes unrhyw faterion wedi'u codi gyda'r Aelod sy'n gyfrifol ynghylch gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud y ddeddfwriaeth hon o dan adran 108 ac Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

34. Rydym yn nodi y caiff hawliau dynol eu cynnwys fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol ac mewn tystiolaeth a gafwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Rydym wedi ystyried sylwadau'r Aelod sy'n gyfrifol ac Ysgrifennydd y Cabinet yn drylwyr. Rydym yn fodlon bod y Bil yn caniatáu i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun mewn amgylchiadau lle bo methiant parhaus, sy'n debygol o achosi anghyfiawnder neu galedi. Felly, rydym yn fodlon bod mesurau diogelu priodol ar waith mewn perthynas ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

---

[45] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [125]

[46] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [126]

[47] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [126]

[48] **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), 30 Ionawr 2018**

3. Sylwadau cyffredinol

Yr angen am ddeddfwriaeth

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

35. Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil, fel y'i cyflwynwyd. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig "cefnogaeth amodol".[49] Meddai:

> "If you think of the Bill as having four main aspects, then we are broadly content, subject to some relatively minor points with what the Bill proposes in relation to a new ability for the ombudsman to take oral complaints, and the ability of the ombudsman to pursue the privately provided aspects of a healthcare pathway that involves the Welsh NHS as well as the private provider."[50]

36. Fodd bynnag, nododd Ysgrifennydd y Cabinet, er nad oedd yn gwrthwynebu'r elfennau eraill yn y Bil, fod ganddo rai pryderon yr oedd yn werth eu hystyried. Dywedodd wrthym:

> "...we've had some questions to ask, particularly in relation to the own-initiative proposals, which are new and would be the first time that the ombudsman in Wales had such powers, and in the standard-setting aspects of the Bill."[51]

37. Pan ofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pa ystyriaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn, dywedodd y cafwyd trafodaethau rhwng ei ragflaenydd a'r Pwyllgor Cyllid yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygu cynigion a geir gan swyddfa'r Ombwdsmon.[52] Meddai:

> "I think, at that time, the Welsh Government's view—and I think it was, in the end, shared by the Finance Committee—was that, because the ombudsman has powers to scrutinise the Welsh Government itself, the Welsh Government was not best placed to bring those proposals forward. And the ombudsman is, of course, accountable directly to the

[49] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [38]
[50] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [38]
[51] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [39]
[52] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [41]

> National Assembly. For those reasons, I think our feeling at the time—and still would be—was that the reforms are best promoted via a vehicle that belongs to the Assembly itself rather than to the Executive side."[53]

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol

38. Gofynnom i'r Aelod sy'n gyfrifol pam yr ystyriwyd bod angen cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Dywedodd wrthym fod y Bill Pwyllgor hwn, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid, yn ganlyniad adolygiad o Ddeddf 2005 gyda'r Ombwdsmon blaenorol, Peter Tyndall, wedi llunio adroddiad ar yr hyn a lwyddodd o ran pwerau a'r dulliau newydd yr oedd eu hangen ar yr Ombwdsmon.[54]

39. Amlinellodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod pwyllgor yn y Pedwerydd Cynulliad wedi ystyried yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, ar y pryd, nid oedd gan y Pwyllgor hwnnw yr amser na'r adnoddau i fwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi'r Bil, ac felly, wedi trafod â'r Pwyllgor Cyllid, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn ymgynghori ar Fil drafft, a gwblhawyd ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad.[55]

40. Eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

> "... in this Assembly, the Finance Committee, when I became Chair, actually took hold of the draft, reviewed it, and looked at it in light of some of the evidence that had been received since then and in light of some of the conversations that had taken place with the new Cabinet Secretary who was also new in post at that time ... there were a few changes that were made to that draft Bill and now we have a Bill that has been presented as a Bill to be discussed by the Assembly."[56]

Cydgrynhoi

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

41. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn credu bod nifer o resymau pam fod cael Bil newydd yn fwy effeithiol na cheisio diwygio Deddf 2005. Meddai:

---

[53] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [41]

[54] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [107-108]

[55] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [108]

[56] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [109]

> "I ddechrau, dyma gyfle i gael Deddf ddwyieithog, ac mae hynny'n bwysig i ni yng Nghymru, wrth gwrs, achos roedd yr un gwreiddiol, nôl yn 2005, yn rhywbeth yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, so dim ond yn Saesneg mae'r Ddeddf yn bodoli.
>
> Yr ail beth yw, trwy wneud Deddf newydd mae wedi bod yn bosibl tynnu at ei gilydd popeth sydd yn berthnasol i'r ombwdsmon yn yr un lle, ac mae hynny'n help i bobl yn gyffredinol, jest o ran accessibility, byddwn i'n dweud. So, i fi, rydym ni'n gallu gweld pam mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gwneud y penderfyniad i fwrw ymlaen yn y ffordd y maen nhw wedi'i wneud."[57]

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

42. Amlinellodd yr Aelod sy'n gyfrifol y rhesymau dros beidio diwygio Deddf 2005 a datblygu Bil newydd yn lle. Soniodd am y cyfle i ddatblygu deddfwriaeth ddwyieithog mewn maes sy'n "eithriadol o bwysig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru"[58] gan mai Saesneg yn unig yw Deddf 2005. Dywedodd hefyd, yn hytrach na gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf bresennol, lle byddai rhaid i ddinasyddion gyfeirio yn ôl at y darn gwreiddiol o ddeddfwriaeth, fod y Bil yn ailddatgan Deddf 2005 i raddau helaeth gan gyflwyno pedair darpariaeth newydd mewn ymdrech i ddilyn arfer gorau.[59]

43. Mae Rhan 5 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol. Cyflwynodd *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ddarpariaethau'n ymwneud â darparwyr gofal cymdeithasol a gofal lliniarol yn Neddf 2005. Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol pam mai diweddariad o Ddeddf 2005 yw'r rhan hon o'r Bil. Dywedodd wrthym:

> "... cwta dwy flynedd a hanner yn ôl fe wnaeth y Cynulliad cyfan benderfynu mai dyma oedd y ffordd o drin y rhan yma o'r Bil. Felly, roeddem ni'n teimlo ein bod ni'n mynd o flaen ein gwell, mewn ffordd, os oeddem ni'n trio ail-wneud beth oedd y Cynulliad lai na thair blynedd yn ôl wedi'i gymeradwyo, a hynny'n unfrydol. Felly, dyna pam mae'r Bil presennol yn edrych fel y mae."[60]

---

[57] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [62-63]

[58] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [128]

[59] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [128]

[60] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [129]

Ein barn

44. Rydym yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol wrth ddarparu Bil sy'n ddarn o ddeddfwriaeth wedi'i gydgrynhoi ynghyd â'r sylwadau cadarnhaol a roddodd Ysgrifennydd y Cabinet o'i blaid.

45. Rydym yn credu ei fod yn cynrychioli'r dull o arfer gorau a gafodd ei hybu gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn ei adroddiad *Deddfu yng Nghymru*.[61] Fel y nododd yr Aelod sy'n gyfrifol ac Ysgrifennydd y Cabinet yn eu tystiolaeth, mae'n sicrhau bod deddfwriaeth o bwysigrwydd arwyddocaol yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog ac ni ddylid tanbrisio manteision hyn i ddinasyddion Cymru.

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

46. Gofynnom i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn credu y cafwyd y cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a adawyd i is-ddeddfwriaeth. Dywedodd y teimlai, o siarad yn gyffredinol, fod y cydbwysedd yn gywir.[62] Nododd fod pwerau i wneud rheoliadau yn gyson â'r un dull yn Neddf 2005, a dywedodd fod y dull hwn yn cael ei ystyried yn un da.[63]

47. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet un pŵer i wneud gorchymyn, a fyddai'n gofyn i'r Comisiynydd Plant ymgynghori â'r Ombwdsmon a chydweithio ag ef, a theimlai y byddai'n well cynnwys y pŵer hwn ar wyneb y Bil o bosibl.[64] Yn ei farn ef, byddai hyn yn symlach gan y byddai gan y Comisiynydd y pwerau hynny o'r cychwyn cyntaf, a fyddai'n cael gwared ar yr angen i'r polisi gael ei sbarduno gan Weinidogion Cymru.[65]

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

48. Gofynnom i'r Aelod sy'n gyfrifol sut y penderfynodd beth i'w roi ar wyneb y Bil a beth i'w adael i'r is-ddeddfwriaeth. Dywedodd fod y cydbwysedd wedi dod o Ddeddf 2005, ac wedi'i seilio ar yr ymgynghoriad ar gyfer y Bil drafft. Roedd hefyd

[61] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ***Deddfu yng Nghymru***, Hydref 2015

[62] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [65]

[63] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [68]

[64] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [69]

[65] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [69]

yn teimlo bod y rhannau o'r Ddeddf wreiddiol sydd eisoes mewn grym wedi bod yn effeithiol.[66]

49. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod y pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil oll yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Soniodd am fanylion y dull a gymerwyd er mwyn taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd ei angen i gadw hyblygrwydd. Nododd, os oedd adran o'r Bil yn newydd, ei bod wedi cael ei rhoi ar wyneb y Bil yn hytrach na defnyddio is-ddeddfwriaeth.[67] Dywedodd wrthym:

> "...roeddem ni yn trosglwyddo rhywbeth cwbl newydd lle roedd yn bosibl i'w roi i gyd ar wyneb y Bil, lle roeddem ni'n teimlo bod angen gwneud pethau'n saff ar gyfer y dyfodol, neu lle roeddem ni'n teimlo bod angen jest cael y drafodaeth yna wrth i amser fynd heibio a bod yn fwy hyblyg, rydym ni wedi ceisio ei wneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol."[68]

50. O ran sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ar bwerau i gydweithio â'r Comisiynydd Plant, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

> "Cytunaf fod ffordd well o ddelio â'r mater o ran sut mae'r Ombwdsmon a Chomisiynydd Plant Cymru yn cydweithio a bod gosod manylion ar wyneb y Bil yn ddull gwell na gadael y manylion i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth."[69]

Ein barn

51. Rydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.

52. Rydym yn cytuno gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Aelod sy'n gyfrifol fod nodi'r manylion ar wyneb y Bil ynghylch sut y gall yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd Plant gydweithio yn ddull gwell na gadael i'r manylion gael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliant i'r Bil i'r perwyl hwnnw.

---

[66] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [131]

[67] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [132]

[68] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [133]

[69] **Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Cyllid, Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), 30 Ionawr 2018**

4. Sylwadau ar bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth

Y cefndir

53. Mae'r Bil yn cynnwys 13 o bwerau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (yn bennaf ar ffurf rheoliadau). Mae'r rhesymeg ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, ac ar gyfer gweithdrefn y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â hwy, i'w gweld ym mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

54. O'r 13 pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth:

- mae 12 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; ac
- mae un heb fod yn ddarostyngedig i ddim gweithdrefn – y pŵer i wneud gorchmynion cychwyn.[70]

55. Roedd ein sesiwn graffu yn canolbwyntio ar y pwerau hynny a oedd o'r diddordeb mwyaf i ni ac mae ein hystyriaeth isod yn cyfeirio at faterion penodol yr ydym am dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol atynt.

Pwerau Harri VIII

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

56. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am ei farn ar y pwerau Harri VIII (lle defnyddir rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol) sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, a gofynnwyd iddo a oedd yn ystyried bod y rhain yn briodol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn credu bod naw enghraifft o bwerau Harri VIII yn y Bil, â chwech ohonynt yr un fath â'r sefyllfa bresennol.[71] Awgrymodd nad yw'r Bil yn cynrychioli "cam newydd sylweddol i ddefnyddio rhagor o bwerau Harri VIII".[72] Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn fodlon bod y weithdrefn gadarnhaol yn addas ar gyfer y pwerau Harri VIII sydd i'w cael yn y Bil. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod chwech o'r naw pŵer Harri VIII eisoes â gofynion i ymgynghori ar eu cyfer.[73] Ychwanegodd:

[70] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 6, tudalennau 31-39

[71] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [75]

[72] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [75]

[73] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [79]

> "...the affirmative powers that the Bill proposes, are, very often, stretched towards the superaffirmative without necessarily going all the way towards them. I don't think we have difficulties with that, because, for example, in that example of changes to the criteria for own-initiative investigations, I think it's a very important power to have in the Bill."[74]

57. Daeth Ysgrifennydd y Cabinet i'r casgliad bod y Bil yn gymesur ar y cyfan:

> "[the Henry VIII powers are in] narrow, specific areas, and when there is the need to make sure that the Assembly would have the benefit, not just of the Government's perspective, but of the perspectives of others, those consultation requirements will guarantee that the Assembly has that available to them in the affirmative procedure."[75]

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

58. Gofynnom i'r Aelod sy'n gyfrifol pam fod cymaint o'r pwerau dirprwyedig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn bwerau Harri VIII. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod y Bil yn cynnwys naw o bwerau Harri VIII, â chwech o'r rheiny'n cael eu hailddatgan ers Deddf 2005. Cadarnhaodd fod pob un o'r pwerau Harri VIII yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.[76] Ychwanegodd:

> "...there's a strong scepticism about them, and I understand that, particularly when they are widely drawn and really allow Ministers just to slot in what they like into legislation. But I think these are very specific powers relating to very specific parts of the Act."[77]

59. Disgrifiodd yr Aelod sy'n gyfrifol ddiben un o'r pwerau Harri VIII lle byddai'r pŵer a gymerir yn caniatáu newidiadau yn y dyfodol i'r awdurdodau a restrir. Dywedodd eto fod y pŵer wedi cael ei ddrafftio'n eithaf cul, a'i fod yn berthnasol iawn i ddiben y Bil.[78] Awgrymodd nad oedd y pŵer yn llesteirio'r Bil mewn unrhyw ffordd[79] nac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud hynny.[80]

[74] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [83]
[75] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [84]
[76] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [137]
[77] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [137]
[78] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [138]
[79] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [138]
[80] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [138]

60. Dywedodd fod y Bil wedi cael ei ddiweddaru heb ddefnyddio pwerau Harri VIII lle bo'n bosibl drwy roi rhagor o fanylion ar wyneb y Bil.[81] Ychwanegodd:

> "Where we've been able to, we've modernised the Bill on the face of the Bill, but where we feel that there will be a need for powers to amend the Bill in future to maintain its relevance to the public sector in Wales and the work of the ombudsman, then … we have retained or have introduced … three new powers in that regard, and that's the purpose of them."[82]

61. Gofynnom a oedd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi ceisio cynnwys cymaint ar wyneb y Bil, iddo wedyn orfod ceisio gwrthbwyso hynny â phwerau Harri VIII. Atebodd yr Aelod sy'n gyfrifol drwy ddweud na fyddai'n ei ddisgrifio'n union fel yna.[83] Nododd ei fod wedi ystyried a ellid cyflwyno a diwygio *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ar wyneb y Bil, gan wneud hynny drwyddo draw.[84] Fodd bynnag, dywedodd iddo gael y dull hwn yn rhy ddryslyd a chymhleth.[85]

62. Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd mai penderfyniad bwriadol gan y Pwyllgor Cyllid oedd peidio ceisio diwygio'r pwerau a nodwyd yn Neddf 2005.[86] Dywedodd fod Deddf 2005 wedi cael ei derbyn yn gymharol dda, ac nad oedd wedi bod yn destun unrhyw her wirioneddol, ac felly penderfynwyd i ailddatgan y Ddeddf, gan ddarparu ar gyfer chwech o'r naw pŵer Harri VIII cyn ychwanegu'r darpariaethau ychwanegol.[87] Roedd am gael ymdeimlad cyfarwydd, cyson ac eglur fel egwyddorion i lywio'r gwaith o ddrafftio'r dull hwn.[88]

63. Pan awgrymwyd y gallai'r Aelod sy'n gyfrifol fod wedi ailddatgan Deddf 2005 a defnyddio gweithdrefn wahanol, ac mai dewis felly oedd defnyddio pwerau Harri VIII, cytunodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai dewis ydoedd.[89]

---

[81] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [139]
[82] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [139]
[83] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [141]
[84] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [141]
[85] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [141]
[86] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [142]
[87] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [142]
[88] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [143]
[89] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [145]

64. O ganlyniad, gwnaethom awgrymu y gellid bod wedi defnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol mewn rhyw ffurf yn lle pwerau Harri VIII. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

> "The superaffirmative, I think, is very important when the powers to amend primary legislation directly could impinge on human rights, could impinge on individuals' positions, could impinge on penalties or taxation … I think it's extremely important to have things like the superaffirmative if you are going to use Henry VIII powers and not state them on the face of the Bill in those contexts.
>
> I think the context of this Bill is, I would reiterate, quite narrowly drawn. You could argue, in certain terms, that one or two of these could appear on the face of the Bill. But, if you are going to use the powers, then I think the affirmative itself is a very strong sign that the Assembly itself will be examining these. Many of them are linked to consultation; that's not a superaffirmative procedure in my view. Consultation should happen where appropriate as much as possible … There is a particular procedure for superaffirmative, which I think should be kept for the principles that I've set out rather than applied to what is, at heart, really administrative—important administration, yes, but really administrative. I think the affirmative procedure in front of the full Plenary is a sufficient safeguard there."[90]

Ein barn

65. Mae'r Pwyllgor hwn a'i ragflaenydd wedi mynegi pryder yn gyson ynghylch y defnydd gormodol o bwerau Harri VIII a chymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r fath bwerau. Rydym wedi derbyn bod amgylchiadau lle bo defnyddio pwerau Harri VIII, er nad yw'n ddelfrydol, yn gyfaddawd synhwyrol a phriodol, yn enwedig lle byddai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i wneud newidiadau i Ddeddfau sydd eisoes yn bodoli yn rhy anghymesur. Fodd bynnag, dylai pwerau o'r fath bob amser fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o leiaf.

66. Felly, rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r pwerau Harri VIII sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Er bod nifer sylweddol ohonynt, rydym yn nodi bod ganddynt gwmpas cul. Am y rheswm hwnnw, rydym yn fodlon ar eu defnydd yn y Bil. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn nodi hefyd fod chwech o'r naw pŵer yn cynnwys gofyniad i ymgynghori.

---

[90] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [147-148]

67. Y Pwyllgor hwn fydd yn gyfrifol am graffu ar yr is-ddeddfwriaeth o dan y Bil hwn, ac o ganlyniad byddwn yn monitro'r defnydd a wneir o'r pwerau hyn gan Weinidogion Cymru yn ofalus, os daw'r Bil yn gyfraith.

Adran 76 – Dehongli

68. Mae adran 76(1) o'r Bil hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiffinio "tribiwnlys perthnasol" mewn rheoliadau, ac mae adran 10 yn ymwneud â materion y gall yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae adran 76(1) yn caniatáu i reoliadau nodi swyddogaethau gweinyddol tribiwnlysoedd penodol yng Nghymru at ddibenion cul adran 10(7), fel y'i darllenir gydag adran 10(4)(e). Mae'r pŵer hwn wedi bod ar gael o'r dechrau yn Neddf 2005, ac fe'i defnyddiwyd unwaith yn unig (er mwyn nodi bod y tribiwnlys prisio yn dribiwnlys perthnasol).[91]

69. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol am y rheswm a ganlyn:

> "Er bod cwmpas y pŵer hwn yn gul, mae'n dal yn rhoi'r pŵer i newid deddfwriaeth sylfaenol. Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.
>
> Mae'n fesur diogelu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a geir yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy."[92]

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

70. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> "There is an issue at section 76(1) of the Bill, which is a power that is picked up from the 2005 Act, where it is subject to the negative procedure. I think it is suggested that it should be subject to the affirmative procedure in this Bill. Given that it is a power that simply allows Welsh Ministers to ensure that administrative functions of tribunals are treated as such, I don't think we think that it is a sufficient power to require the affirmative oversight of the National Assembly."[93]

[91] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 6, tudalennau 36-37

[92] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 6, tudalennau 36-37

[93] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [95]

Ein barn

71. Nid ydym yn credu bod y weithdrefn gadarnhaol yn addas mewn perthynas â'r pŵer hwn i wneud rheoliadau. Mae hyn yn unol â'n hegwyddor sefydlog fod rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Ni ddylai gwneud rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol arwain at unrhyw oedi wrth eu gweithredu.

Adran 78 – Darpariaethau canlyniadol, trosiannol etc

72. Mae Adran 78(1) o'r Bil yn galluogi i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaethau canlyniadol, cysylltiedig neu atodol a darpariaethau darfodol, trosiannol, neu arbed "sydd yn eu barn hwy yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi".

73. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan ei bod yn "addas dirprwyo'r pŵer hwn gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati yn yr amgylchiadau a nodir yn adran 78(1)".[94] Mae hefyd yn nodi bod rheoliadau a wneir drwy ddefnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd:

> "Mae'n briodol craffu'n iawn ar bwerau o'r fath. Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Cynulliad a'u trafod yn briodol..."[95]

74. Mae adran 78(3) o'r Bil yn datgan bod "cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p.10) yn gyfeiriad at swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n parhau o dan y Ddeddf hon".

Tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet

75. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> "... section 78 of the Bill, isn't broad enough in relation to the Henry VIII power that it provides, in that it doesn't include a power to amend primary legislation, despite being subject to the affirmative procedure. We think there may be instances where that would be important, and if

[94] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 6, tudalen 39

[95] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 6, tudalen 39

> it's not there then we may be in the position of having to bring primary legislation back to the Assembly to put right pretty minor things that would be better done in a more proportionate way."[96]

76. Ychwanegodd fod y ddarpariaeth gyfatebol yn adran 43 o Ddeddf 2005 yn cynnwys pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn ei farn ef, mae'n bosibl bod cyfeiriadau i Ddeddf 2005 mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd angen diwygiad canlyniadol, a byddai hyn yn ffordd gymesur o gyflawni'r amcanion hynny.

77. Mewn gohebiaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "...efallai y bydd angen cyflwyno diwygiad, yn hwyrach yn ystod hynt y Bil, os bydd yn symud y tu hwnt i gyfnod un. Diben unrhyw ddiwygiad o'r fath fyddai egluro bod y pŵer yn adran 78 yn ymestyn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, yn y ffordd a ddarperir gan Ddeddf 2005."[97]

78. Gofynnom i Ysgrifennydd y Cabinet am y defnydd a wneir o'r cymal "angenrheidiol neu'n hwylus" yn adran 78(1) o'r Bil, ac a ddylai'r Bil ddibynnu ar "angenrheidiol" yn unig. Dywedodd y byddai'n ystyried y mater ymhellach, a dywedodd wedyn fod y "drafft presennol yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei ddirfawr angen". Aeth ymlaen i ddweud:

> "Mae'n werth cadw mewn cof hefyd fod y pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaeth yn cael ei gyfyngu gan y geiriau sy'n ymddangos ar ddiwedd adran 78(1), h.y. gellir gwneud y ddarpariaeth yn unig at ddibenion rhoi effaith lawn i ddarpariaethau'r Bil, o ganlyniad i roi effaith lawn i ddarpariaethau'r Bil neu er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaethau'r Bil."[98]

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol

79. Mewn gohebiaeth, atebodd yr Aelod sy'n gyfrifol bryderon Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch mor eang yw adran 78 o'r Bil:

> "Mae adran 78 y Bil yn fersiwn culach o adran 43 o Ddeddf 2005.
>
> Mae adran 43 o Ddeddf 2005 yn cynnwys pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a gafodd ei phasio cyn diwedd Sesiwn

[96] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [77]

[97] **Llythyr gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 8 Chwefror 2018**

[98] **Llythyr gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 8 Chwefror 2018**

2004/2005 Senedd y DU. Felly mae'r pŵer yn adran 43 yn gyfyngedig o ran ei gwmpas.

Nid yw'r pŵer yn adran 43 wedi'i ddefnyddio am 12 mlynedd (11 mlynedd a 10 mis).

Dull arall i gynnwys elfen Harri VIII yn adran 78 o'r Bil fyddai:

- yn gwneud yr holl ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ar wyneb y Bil, ac
- yn ehangu cwmpas y ddarpariaeth drosiannol yn adran 78(3) y Bil i gynnwys unrhyw welliannau a allai fod wedi'u colli o wyneb y Bil mewn un tro.

Rwy'n hapus i edrych ymhellach ar y diwygiadau canlyniadol sydd eu hangen ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol (ac nad ydynt eisoes wedi'u cyflawni gan adran 78(3)) ac i drafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet p'un a allai'r dull amgen uchod adael bylchau o hyd yn y diwygiadau canlyniadol, sy'n golygu y byddai angen cynnwys pŵer Harri VIII yn adran 78 (a ph'un a fyddai hynny'n gyfyngedig i bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a wnaed cyn i'r Bil ddod yn Ddeddf, o ran sut roedd adran 43 Deddf 2005 yn gyfyngedig, fel y nodwyd uchod)."[99]

80. Gofynnom i'r Aelod sy'n gyfrifol am y defnydd a wneir o'r term "hwylus" yn adran 78(1) o'r Bil, gan awgrymu ei fod yn rhoi pwerau rhy eang i Weinidogion Cymru. Mewn ymateb, dywedodd ei fod yn derbyn y pryderon ynghylch defnyddio'r term hwnnw, ond nododd nad oedd y pwerau wedi'u drafftio mor eang â Biliau Llywodraeth, gan ychwanegu:

"...we have tried to narrow it down to what we believe to be necessary ... the other thing that we've introduced here, which is different, is that even these powers are under the affirmative procedure, and that's not happened before, certainly not under a Government Bill. So, even these consequential and transitional arrangements—yes, they're quite wide, but, again, they're brought in under an affirmative procedure, not a negative procedure, which I think tries to follow what this committee has advocated in the past."[100]

---

[99] **Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Cyllid, Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), 30 Ionawr 2018**

[100] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [155]

81. Mewn gohebiaeth, dywedodd wrthym:

> "Yn ogystal â'r pwyntiau y gwnes i gerbron y Pwyllgor, hoffwn ychwanegu rai egwyddorion pellach sy'n cyfyngu'r ystyr 'hwylus' yng nghyd-destun y Bil hwn. Rwy'n derbyn bod gan 'hwylus' elfen oddrychol ac nid yn derm cwbl glir. Ond mae yna ddau gyfyngiad pwysig ar y defnydd o bŵer 'hwylus':
>
> - rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'n gymesur ac yn rhesymol fel mater o gyfraith cyhoeddus. Felly, er enghraifft, ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer "hwylus" mewn ffordd anghymesur nac mewn ffordd afresymol;
> - ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwylus (nac unrhyw bŵer arall yn y Bil) mewn ffordd sy'n llesteirio dibenion y Bil. Mae hon yn egwyddor gyfreithiol sefydledig, sy'n cael ei galw yn elfen Padfield, y bydd y llysoedd yn gorfodi. Un pwrpas clir y Bil hwn yw helpu pobl sydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi, ac ni waeth pa mor eang yw'r pŵer yn y Bil, ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i lesteirio y diben hwnnw - byddai gwneud hynny yn gweithredu'n anghyfreithlon. Felly, yng nghyd-destun y Bil penodol hwn, mae'n gyfyngiad pwysig iawn ar y defnydd o bwerau.
>
> Ac, wrth gwrs, byddai unrhyw ddefnydd amhriodol o'r pwerau hyn yn cael eu dwyn at sylw'r Pwyllgor, a byddai'r Pwyllgor yn paratoi adroddiad yn beirniadu'r defnydd amhriodol cyn i unrhyw bleidlais ddigwydd yn y Cyfarfod Llawn."[101]

Ein barn

82. Rydym wedi bod o'r farn yn gyson y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio dull mwy penodol yn hytrach na'r pwerau mwyaf eang sydd ar gael. Ni ddylai'r Bil Pwyllgor hwn fod yn eithriad. Ein pryder yn enwedig o ran adran 9 yw'r defnydd a wneir o'r geiriau "angenrheidiol neu'n hwylus". Yn ein barn ni, byddai'r gair "angenrheidiol" yn ddigonol.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" yn adran 78(1).

[101] **Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Cyllid, Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), 30 Ionawr 2018**

83. Rydym yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried cyflwyno gwelliant i roi eglurder bod y pŵer yn adran 78 yn ymestyn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn fodlon archwilio'r mater hwn ymhellach. Os bydd gwelliant o'r fath yn cael ei gyflwyno o ganlyniad, rydym, wrth gwrs, yn credu y dylai'r pŵer fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.